



**TGAU**

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant  
(Gradd Unigol)**

**3570CS**

**Arholiadau Haf 2022**

Uned 1	Twf, Datblygiad a Llesiant Dynol	Dydd Llun, 16 Mai 2022
--------	----------------------------------	---------------------------

# **Gwybodaeth Ymlaen Llaw**

## **Gwybodaeth gyffredinol i fyfyrwyr ac athrawon**

Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn rhoi ffocws i'r hyn y bydd papur arholiad Haf 2022 yn ei gynnwys.

Nid yw'n berthnasol i unrhyw gyfres arholiadau arall.

Bwriad y wybodaeth hon yw cefnogi'r broses o adolygu.

Gellir ei defnyddio ar unrhyw adeg o'r dyddiad y cafodd ei rhyddhau.

Ni ddylid mynd â'r wybodaeth hon i mewn i'r arholiad.

# Gwybodaeth am y pwnc i fyfyrwyr ac athrawon

Mae rhagor o wybodaeth am addasiadau i gymwysterau CBAC TGAU a TAG yn 2022 ar gael yn: <https://www.cbac.co.uk/home/addasiadau-haf-2022/>

Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn ymdrin ag Uned 1 (Gradd Unigol) yn unig. Nid oes unrhyw wybodaeth ymlaen llaw ar gyfer Uned 2 (Asesiad Di-arholiad).

Nid yw Uned 1 yn destun asesiad yn 2022 ar gyfer y cymhwyster Dwyradd. Felly, nid oes Gwybodaeth Ymlaen Llaw ar gyfer y cymhwyster Dwyradd.

Awgrymir y dylid canolbwyntio'n benodol ar y meysydd cynnwys sy'n dilyn wrth adolygu a pharatoi'n derfynol, yn barod at arholiad Haf 2022.

Bydd y meysydd testun canlynol yn cael eu profi drwy'r cwestiynau tariff uwch yn bennaf, ond nid yn unig. Ymdrinnir â chynnwys pwnc arall yn y cwestiynau sy'n weddill.

Y nod o hyd yw ymdrin â holl gynnwys y fanyleb wrth addysgu a dysgu.

## Uned 1

	Cynnwys	Ymhelaethu
<b>2.1.1 Datblygiad Dynol drwy gydol cylchred bywyd</b>	(ch) Ffactorau sy'n effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant	Dylai dysgwyr ddeall sut gall y ffactorau hyn gydberthyn a sut gallant effeithio ar lesiant unigolyn, mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol drwy gydol cylchred bywyd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>• Deiet, maeth a hydradu, gan gynnwys bwydo o'r fron, bwydo o'r botel a diddyfnu</li><li>• Cam-drin (emosiynol, corfforol, rhywiol, seicolegol ac esgeulustod) – i gynnwys ymddygiad sy'n rheoli/gorfodi o fewn perthnasoedd teuluol a/neu berthnasoedd personol agos a rhywiol</li></ul>
<b>2.1.2 Iechyd corfforol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol</b>	(a) Y gydddibyniaeth rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl da	Manteision cymdeithasol ac emosiynol – iechyd meddwl
	(b) Adnoddau i gefnogi iechyd cymdeithasol, emosiynol a deallusol	Rhaid i ddysgwyr wybod am y cymorth/prosesau sydd ar gael i hybu iechyd cymdeithasol, emosiynol a deallusol, a'u deall: <ul style="list-style-type: none"><li>• Meddylfryd twf</li><li>• Gwydnwch</li></ul>

	<b>Cynnwys</b>	<b>Ymhelaethu</b>
<b>2.1.3 Pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol i ddatblygiad a llesiant</b>	(b) Manteision cyfranogiad gweithredol i'r unigolyn	Dylai dysgwyr wybod bod cyfranogiad gweithredol yn rhoi nifer o fanteision i'r unigolyn.
<b>2.1.4 Atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn hybu a chefnogi twf, datblygiad a llesiant ar gyfer amrediad o amgylchiadau a chyflyrau</b>	(a) Ffyrdd o hybu a chefnogi twf, datblygiad a llesiant	<p>Rhaid i ddysgwyr wybod am ffyrdd o hybu a chefnogi twf, datblygiad a llesiant unigolion drwy ymyrryd yn gynnar a chymryd camau ataliol, a'u deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaglenni sgrinio – y fron, cerfigol, perfedd, ymlediad aortig abdomenol, mamol, plentyn (e.e. cofnod iechyd personol plentyn), gan gynnwys clyw babanod newydd-anedig, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, Cymru Well Wales: 1000 Diwrnod Cyntaf:</li> <li>• Canllawiau llywodraeth a gynlluniwyd i hybu iechyd a llesiant unigolion mewn perthynas â: deiet, clefydau a drosglwyddir yn rhywiol, camddefnyddio alcohol a sylweddau, ysmegu, byw'n iach</li> </ul>
	(c) Amgylchiadau	<p>Bydd angen i ddysgwyr wybod a deall y gall amgylchiadau unigolion godi o ddigwyddiadau disgwylidig ac annisgwyl mewn bywyd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgariad</li> <li>• Profedigaeth</li> </ul> <p>I gynnwys effeithiau.</p>

Diwedd y wybodaeth ymlaen llaw